COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
Hanner dydd, dydd Mercher 30 Tachwedd 2022
Cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 13 (yn cynnwys cofnod 6a).

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Jan Tiley, Chris Franks, Stephen Nicholls, Jenni Jones-Annetts, Salamatu Fada, Cathy Clark, Dona Lewis; Sam Emmett (ac eithrio yn ystod cofnodion 6-8), Victory Ezeofor (o gofnod 5 ymlaen), Marion Burke (hyd at gofnod 7), Nicole Kinnaird (hyd at gofnod 6), Siôn Aled Owen (hyd at gofnod 5), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd - hyd at gofnod 3). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Iola Llwyd (cyfieithydd ar y pryd); hefyd Karolina Rucinska (Cynnal Cymru) yn ystod cofnodion 1-3 yn unig.
Ymddiheuriadau: Caroline Davies, Judith Evans, Tim Palazon; Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad).

2. Cofnodion Busnes Agored cyfarfod y Cyngor ar 26 Medi 2022 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd gweithredu dilynol wedi digwydd ynghylch yr holl bwyntiau o ddilyniant a restrid yno, neu cyfeirid atynt mewn papurau yn ddiweddarach yn yr agenda.

Fe wnaeth John Graystone ddatgan buddiant cysylltiedig, a oedd wedi cychwyn iddo ers y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor. Roedd yn Gyfarwyddwr interim Cymru'r Sefydliad Dysgu a Gwaith am gyfnod o dri mis tan 31 Ionawr 2023.

3. Adroddiad gan Cynnal Cymru: Cynaliadwyedd yn Addysg Oedolion Cymru

Fe wnaeth Kathryn Robson gyflwyno Karolina Rucinska, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd, Cynnal Cymru. Datblygwyd y ddogfen yn sgil pwynt a godwyd yn wreiddiol yn y Pwyllgor Archwilio, a chynigiwyd y dylai'r cynllun gweithredu yn deillio o'r adroddiad gael ei gyflwyno ger bron y pwyllgorau Adnoddau ac Archwilio yn y dyfodol.

Sgwrsiodd Karolina Rucinska am yr arolwg a gynhaliwyd, y cyfarfodydd/gweithdai a gafwyd ac am y cynnig y dylai'r sefydliad fynd ati'n raddol i sicrhau achrediad trwy gynllun Seren, hyd at Lefel 4 maes o law. Byddai hynny yn cynnwys hyfforddiant i'r holl staff a hysbysu'r cyhoedd am gyflwyniadau'r Sefydliad, a dylid rhoi bron iawn cymaint o bwyslais ar hynny ag ar y prosesau newid. Nid atebion technegol oedd yr unig ofynion - roedd newidiadau yn ymddygiad cydweithwyr yr un mor bwysig. Yn ei hanfod, dylai'r hyn oedd yn cael ei gynnig gael ei integreiddio â gwaith y Sefydliad mor ddidrafferth ag y bod modd, ond

roedd angen casglu rhywfaint o ddata mewnol ychwanegol yn rheolaidd, er enghraifft, fel y nodir yn atodiad 3 ynghylch defnydd blynyddol o geir at ddibenion gwaith. Roedd polisi prynu cynaliadwy hefyd yn agwedd yr oedd angen ei ymgorffori ynddo.

Credai un aelod o'r Cyngor fod 2050 yn gyfnod maith i gyflawni rhai targedau, ac y buasai'n ddefnyddiol cael cerrig milltir penodol yn ystod y daith. Un penderfyniad allweddol oedd faint o flaenoriaeth y dylid ei roi i hyn o gymharu â'r gwaith craidd, sef darparu addysg. Buasai dadansoddiad o'r costau a'r arbedion hefyd yn atodiad hanfodol i'r amserlen gweithredu. Ym marn aelod arall, roedd angen hyrwyddwyr, ymhlith staff ac ymhlith aelodau'r Cyngor hefyd, ac i sicrhau mwy o lwyddiant, dylai'r ymgynghorwyr eu hunain gynorthwyo â'r broses yn ystod y daith, oherwydd gallai fod yn heriol. Cadarnhawyd mai Cath Hicks oedd yr unigolyn oedd wedi'i phenodi i arwain ar y mater o safbwynt y staff. Credai aelod arall y byddai angen dehongli data yn ofalus, oherwydd roedd un set o ffigurau yr oedd wedi'i gweld yn dangos bod gweithio gartref yn fwy ynni dwys nag yn achos y rhai oedd yn gweithio o fewn ychydig filltiroedd o'u cartrefi ac yn mynd i weithio i'w swyddfa yn rheolaidd, felly roedd rhywfaint o gyfaddawdu penodol.

Cyfeiriodd ychydig o bobl am natur gadarnhaol ceir trydan, ond cyfeiriwyd hefyd at y diffyg mannau gwefru ar eu cyfer yng Nghymru; a allai'r sefydliad osod y rhain ym meysydd parcio'r swyddfeydd oedd yn eiddo iddo? Roedd prinder y grantiau cyhoeddus oedd ar gael i wneud y gwaith hwn yn golygu y buasai'n fusnes drud. Fodd bynnag, roedd camau gweithredu awgrymedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ac yn enwedig rhywfaint o newidiadau y gellid eu cyflawni'n gyflym a sicrhau arbedion. Buasai datblygiadau eraill, megis mwy o inswleiddio a gosod pympiau gwres o'r ddaear yn y swyddfeydd oedd yn eiddo i'r sefydliad yn fuddsoddiadau drutach. Dylid anelu at leihau nifer y teithiau mewn ceir yn gyffredinol, bodd yn gerbyd trydan neu'n gerbyd yn defnyddio tanwydd arall, oherwydd roedd pob cerbyd trydan hefyd yn ddrud i'w cynhyrchu o safbwynt amgylcheddol yn y lle cyntaf. Gellid hefyd ystyried cynnig mwy o gymhellion i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, neu hyd yn oed bysys wennol i deithio i'r swyddfeydd.

Diolchwyd i Karolina Rucinska am ei chyfraniad, a gadawodd y cyfarfod ar yr adeg hon. Roedd tâl ar gadw ychwanegol i sicrhau cymorth Cynnal Cymru â gwaith y sefydliad yn bosibl, pe bai hynny'n ofynnol.

4. Asesu cynllun aelodaeth Addysg Oedolion Cymru

Cychwynnodd y Cadeirydd y drafodaeth hon trwy gynnig dau sylw. Yn gyntaf, yr oedd wedi casglu ar ôl darllen yr adroddiad gan FR Marketing nad oedd gan y Sefydliad gynllun aelodaeth gweithredol ar hyn o bryd, felly ni allai alw ei hun yn sefydliad aelodaeth dilys. Credai hefyd y dylai'r cyfrifon blynyddol gynnig disgrifiad cryno penodol ynghylch sut yr oedd arian yr aelodau wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn honno. Yna, fe wnaeth Cath Hicks esbonio strwythur yr adroddiad ac awgrymu rhannau allweddol y dylid eu trafod.

Gofynnwyd: pe baem yn peidio â bod yn sefydliad aelodaeth, sut fuasai Llywodraeth Cymru yn ymateb i ddatblygiad o'r fath? Gan ateb hynny, dywedwyd bod llawer o bobl yn Llywodraeth Cymru heb unrhyw ddiddordeb yn y ffaith ein bod ni'n sefydliad aelodaeth nac yn ymwybodol o hynny, felly ni fuasai'n newid canfyddiadau yno. Fodd bynnag, roedd hi'n wir yr oedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn defnyddio'r statws sefydliad aelodaeth i gyfiawnhau pwyntiau wrth drafod â chynrychiolwyr y Senedd a Llywodraeth Cymru. Credai aelodau'r Cyngor yn gyffredinol nad oedd dysgwyr, ar y cyfan, yn deall buddion dod yn aelodau. Fodd bynnag, roedd y sylwadau cadarnhaol yn y papur gan ddysgwyr penodol a oedd wedi mynd ati i ymaelodi yn dangos bod dadl gref dros gryfhau hynny fel ffactor cadarnhaol.

Yn wir, roedd holl aelodau'r Cyngor a siaradodd o blaid parhad cynllun aelodaeth, ond roeddent yn cytuno hefyd bod angen ei newid a'i adfywio. Roedd y cynnig i gael aelodaeth am ddim wedi peri dryswch, ond byddai'n deg parhau â fersiwn wedi'i thargedu'n well o hynny. Roedd y dreftadaeth yn

deillio o Sefydliad Addysg y Gweithiwr yn bwysig o ran parhau â chynllun aelodaeth, ac ni fuasai'r honiad ein bod yn sefydliad oedd yn cael ei arwain gan ddysgwyr/myfyrwyr yn un dilys oni byddai aelodau'n cyfranogi'n weithgar yn ei faterion. Yn ychwanegol, roedd goblygiadau cyfansoddiadol dirwyn cynllun aelodaeth i ben yn rhy eang ym marn rhai, a buasai'n rhaid ailddiffinio nifer o seddau ar y Cyngor.

Casglwyd y dylai argymhellion manwl yn deillio o'r papur gael eu trafod gan y pwyllgorau Adnoddau a Phrofiad y Dysgwyr yng Ngwanwyn 2023.

5. Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Oedolion Cymru, 2023 - 2026

Deilliodd hyn o'r gwaith a wnaed gan FR Marketing a'r Diwrnod Cynllunio Strategol a gynhaliwyd ym mis Mai. Roedd gan y Cynllun arddull cyflwyno newydd, roedd yn cynnwys tair set o amcanion (yn hytrach na phedair) ac roedd yn adlewyrchiad cywir o'r trafodaethau a gynhaliwyd a'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod y gwaith paratoi. Roedd yr holl amcanion yn heriol a buasai'n rhaid gwella'r Sefydliad i'w cyflawni. Fe wnaeth aelodau'r Cyngor ganmol golwg a chynnwys yr adroddiad.

Gofynnwyd a ddylai ymrwymiad i 'gwricwlwm cryf, cenedlaethol ac amrywiol' gael ei gynnwys. Cydnabuwyd fod risgiau ariannol penodol yn gysylltiedig â'r mater hwn, ac efallai felly fod hynny'n gweddu'n well i drafodaethau 'ar y cyrion', fel petai, yn hytrach na chael ei gynnwys yn y ddogfen. Fodd bynnag, credai aelodau'r Cyngor, os oedd gwricwlwm yn cael ei arwain gan ddysgwyr yng ngwir ystyr y gair ac os oeddem yn honni ein bod yn gorff cenedlaethol llawn, fel y dylem, roedd parhau ag ymrwymiad o'r fath yn allweddol, a dylai'r Sefydliad wrthsefyll unrhyw bwysau ariannol neu wleidyddol yn ymwneud â hynny, oherwydd ei bwysigrwydd. Er bod angen sicrhau cydbwysedd heb os rhwng cyrsiau oedd yn cael eu harwain gan alw a dosbarthiadau llai mwy traddodiadol oedd yn gwneud colledion, **buasai cynnwys yr ymadrodd hwn yn cael ei ystyried cyn cwblhau'r Cynllun** a chyn ei hyrwyddo i randdeiliaid a'i rhannu fel rhan o CCB 2023.

Mynegwyd pwynt ar wahân ynghylch sut buasai canlyniadau a dulliau manwl o fesur llwyddiant o'r Cynllun yn cael eu hystyried, a pha un ai a ddylid eu cynnwys ar gyfer pob targed yn y ddogfen. Pwysleisiwyd fod hon yn ddogfen gyhoeddus gryno â rôl benodol i'w chyflawni o ran rhannu gwybodaeth yn y fformat hwn. Buasai dogfennau mewnol megis y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (gweler cofnod 7 isod) a'r Cynllun Datblygu Ansawdd yn llinynnau mesur ac yn llwybrau monitro ar ei chyfer.

6a). Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2022

Cyfeiriodd Kathryn Robson at 3 eitem er gwybodaeth, yn deillio o gyfarfod blaenorol y Cyngor: disgrifiad o'r Cwricwlwm Dinasyddion - menter â brand newydd, ond yn rhywbeth tebyg i'r hyn yr oedd y Sefydliad wedi bod yn ei wneud ers dros ganrif trwy amrywiaeth o ddulliau; y cais i ymaelodi â Hinsawdd Cymru, oedd yn dal ar y gweill; a'r ffaith nad oedd unrhyw diwtoriaid wedi cael eu recriwtio (hyd yn hyn) yn sgil ein presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cytunai, oherwydd roedd yr Eisteddfod yn eithaf beichus o ran y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, fod hynny'n rhywbeth y dylid pennu deilliannau mesuradwy ar ei gyfer yn flynyddol, gan dderbyn y ddadl na ddylai recriwtio tiwtoriaid fod unig amcan presenoldeb y Sefydliad ar y maes. Ynghylch y cais ar gyfer partneriaeth ryngwladol Taith, roedd cais yn cael ei gyflwyno am brosiect crefftau yn nyffryn Kathmandu, Nepal.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyflwyno dyfarniad codiad cyflog o 5% i'r staff yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr a chynnydd o 10% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, oll wedi'i hôl-ddyddio i Awst 2022, ac yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid i ariannu'r rhain. Deellid bod hyn yn setliad cyflog interim fel rhan o gynllun ar gyfer y sector cyfan, hyd nes y byddai cytundeb terfynol ar gyfer 2022-23 wedi'i

gytuno â'r undebau llafur. Ar hyn o bryd, roedd dau aelod o'r staff (un yn gweithio mewn swyddfa, a'r llall yn diwtor) wedi manteisio ar y cynllun benthyciadau di-log a sefydlwyd ers cyfarfod blaenorol y Cyngor. Mynegodd Chris Franks bryder cyffredinol am risgiau yn gysylltiedig â derbyn ymrwymiadau ariannol ehangach heb unrhyw gadarnhad ar bapur gan Lywodraeth Cymru at y dyfodol.

Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 30 Tachwedd 2020 - gweler cofnod 6b), wedi'i gofnodi ar wahân.

7. Uwch Dîm Rheoli: Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022

Byddai'r ddogfen hon yn dychwelyd ger bron y Cyngor yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr, ynghyd â fersiwn newydd ar gyfer blwyddyn galendr 2023. Byddai'r fersiwn honno yn cael ei llywio gan y Cynllun Strategol diwygiedig oedd newydd gael ei gyflwyno, gan gynnwys dangosydd cynaliadwyedd (gweler cofnod 3). Heb os, ni fyddai rhai o fesurau 2022 yn cael eu cyflawni cyn diwedd y flwyddyn galendr, felly buasent yn parhau mewn lliw coch. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â dysgwyr a chwricwlwm llawnach yn dychwelyd yn arafach na'r disgwyl wedi Covid-19. Roedd hynny wedi digwydd yn achos addysg bellach drwyddi draw, nid yn Addysg Oedolion Cymru yn unig.

8. Cofrestr Risgiau Tachwedd 2022

Nododd y Cyngor y Gofrestr ddiweddaredig, a gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried ychwanegu risg newydd yn ymwneud ag ymgyrch gynaliadwyedd y Sefydliad, fel yr amlinellir yng nghofnod 3 uchod.

9. Cyfnod aelodau'r Cyngor yn eu swydd - meini prawf i weithredu diwygiadau yn gysylltiedig â newidiadau cyfansoddiadol

Byddai'r newidiadau i Reol Sefydlog 21 ac Erthygl 10.8 y Sefydliad a gytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor (a fuasai'n caniatáu i aelodau'r Cyngor wasanaethu am gyfnodau hirach, ac yn lleihau bylchau yn eu gwasanaeth parhaus) yn cael ei gynnig ger bron y CCB yn Chwefror 2023 fel cynnig cyfansoddiadol.

Fe wnaeth y Clerc ddisgrifio'r meini prawf i gynnig estyniadau yng nghyfnodau aelodau presennol a darpar aelodau'r Cyngor yn eu swydd, ac roeddent yn seiliedig ar gategorïau amrywiaeth, matrics sgiliau a chofnod presenoldeb aelodau o'r fath, fel y disgrifir yn yr atodiad i'r Rheolau Sefydlog. **Cymeradwyodd y Cyngor y meini prawf hyn fel rhai teg a rhesymegol o safbwynt mewnol, a chytunodd y gellid eu gweithredu** - pe cai'r cynnig yn derbyn sêl bendith y CCB – **ac y dylai aelodau presennol y Cyngor nad oeddent yn y categorïau estyn presennol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y broses**.

10. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022

Dywedodd Steve Nicholls y buasai nifer o'r materion yr ymdrinnid â hwy yn y cofnodion hyn yn dod unwaith eto ger bron cyd-gyfarfod y pwyllgorau Adnoddau a Phrofiad y Dysgwyr yng nghanol mis Rhagfyr. Roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau'r gronfa bensiwn yn y cyfrifon, a'r bwriad i drosglwyddo rhagor o gronfeydd i Brewin Dolphin. Cadarnhawyd fod swm o £300,000 i gaffael rhan o dir Astor Fields yn Harlech wedi'i dderbyn gan y cwmni adeiladu, ac roedd unrhyw symudiadau ymlaen ar y gwariant hwnnw bellach yn dibynnu ar gael caniatâd cynllunio prydlon. Nododd y Cyngor y cofnodion hyn.

11. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst -31 Hydref 2022

Roedd y sylwadau yn y ddogfen yn pwysleisio pa mor anodd oedd gwneud rhagolygon ariannol ar hyn o bryd. Byddai rhagor o fanylion am y cyllid yn dod yn hysbys cyn cyd-gyfarfod y Pwyllgorau ymhen pythefnos, pan fuasai estyniad posibl o'r consesiwn costau teithio tiwtoriaid yn cael ei drafod, a buasai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch sicrhau cydbwysedd o ran defnyddio rhywfaint o gronfeydd ariannol wrth gefn y Sefydliad a chynllunio at ganlyniad diffyg ariannol am y flwyddyn.

12. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Cyfeiriwyd at yr anawsterau â'r cyfieithu ar y pryd y tro hwn, a'r trafferthion a gafodd y Cadeirydd wrth geisio ymuno â'r cyfarfod.

Fodd bynnag, roedd mwyafrif y drafodaeth yn ymwneud â'r safbwynt a fynegwyd yn gryf gan Chris Franks y dylai'r Cyngor ailddechrau cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb rheolaidd ac y dylai CCB 2023 fod felly hefyd, fel oedd wedi digwydd yn achos cyrff eraill yr oedd yn gysylltiedig â hwy. Roedd rhai o'r aelodau eraill yn cefnogi ei safbwyntiau. Fodd bynnag, roedd eraill ymhlith yr aelodau (yn cynnwys Sam Emmett a Salamatu Fada), er yn cydnabod bod dadl dros gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith neu ddwy bob blwyddyn, yn credu y gallai cyfarfodydd rhithiol fod yn ddewis mwy cynhwysol, a'u bod yn cyfrannu at gynyddu cynaliadwyedd y Sefydliad. Nid oedd Steve Nicholls wedi'i ddarbwyllo'n llwyr gan y dystiolaeth a nodwyd am gymwysterau cynaliadwyedd, mewn perthynas â chyfarfodydd. **Nodwyd yr holl safbwyntiau. Casglwyd y dylai un o bob tri o gyfarfodydd y Cyngor neu gyfarfodydd eraill yn 2023 (rhestrir hwy isod) fod yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn unig, ac y dylai Kathryn Robson, ar y cyd â'r Cadeirydd, ac yn sgil y casgliad hwnnw, ystyried ac ymgynghori ynghylch fformat CCB 2023**. Roedd cynnal cyfarfodydd pwyllgorau fel cyfarfodydd cyfunol/hybrid yn drefniant llwyddiannus, a byddai'r drefn honno'n parhau.

13. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod 2023

- Dydd Mawrth 17 Ionawr 2023
- Dydd Mercher 22 Chwefror 2023 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - bydd angen cadarnhau a fydd yn gyfarfod wyneb yn wyneb, rhithiol neu hybrid)
- Dydd Iau 30 Mawrth 2023
- Dydd Mawrth 16 Mai 2023 (Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Iau 6 Gorffennaf 2023

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 4	Asesu cynllun aelodaeth Addysg Oedolion Cymru	Dylai argymhellion manwl yn deillio o'r papur gael eu trafod gan y pwyllgorau Adnoddau a Phrofiad y Dysgwyr yng Ngwanwyn 2023.	CH / KR	Chwefror 2023
Cofnod 5	Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Oedolion Cymru, 2023 - 2026	Byddai ychwanegu ymadrodd ynghylch ymrwymiad i 'gwricwlwm cryf, cenedlaethol ac amrywiol' yn cael ei ystyried cyn cadarnhau'r Cynllun.	KR / CH	Ionawr 2023

Cofnod 6a)	Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2022	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyflwyno dyfarniad codiad cyflog o 5% i'r staff yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr a chynnydd o 10% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, oll wedi'i hôl-ddyddio i Awst 2022, ac yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid i ariannu'r rhain.	KR / MB	Rhagfyr 2022
Cofnod 9	Cyfnod aelodau'r Cyngor yn eu swydd - meini prawf i weithredu diwygiadau yn gysylltiedig â newidiadau cyfansoddiadol	Cymeradwyodd y Cyngor y meini prawf fel rhai teg a rhesymegol o safbwynt mewnol, a chytunodd y gellid eu gweithredu, ac y dylai aelodau presennol y Cyngor nad oeddent yn y categorïau estyn presennol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y broses.	ST	Chwefror 2023
Cofnod 12	Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor	Casglwyd y dylai un o bob tri o gyfarfodydd y Cyngor neu gyfarfodydd eraill yn 2023 (yn unol â'r rhestr) fod yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn unig, ac y dylai Kathryn Robson, ar y cyd â'r Cadeirydd, ac yn sgil y casgliad hwnnw, ystyried ac ymgynghori ynghylch fformat CCB 2023.	KR / JG / ST	Ionawr 2023